# Nodyn Gwybodaeth Cygnor Sir y Ffint

Gweithdrefnau Ceisiadau Cynllunio – Datganiadau Dylunio a Hygyrchedd (DAS)

**Mae'n ofynnol cyfwyno datganiad dylunio a mynediad (Datganiad) gyda'r rhan friodo ʻ ilaad)n a**

Pwrpas y DAS yw egluro sut y cafodd egwyddorion dylunio da eu hystyried o gychwyn y broses ddatblygu ac, fel isafswm, mae'n rhaid iddo egluro'r cysyniadau a'r egwyddorion mewn perthynas â'r isod:

- Hygyrchedd
- Cymeriad (yn cynnwys gosodiad, graddfa, golwg a thirweddu)
- Diogelwch cymunedol
- Cynaliadwyedd amgylcheddol
- Symud i, o ac o fewn y datblygiad

Y bwriad yw gwneud y datblygwyr yn ymwybodol o'r materion hyn pan gaiff y cynlluniau eu llunio ac felly dylid paratoi'r DAS o gychwyn y cynllun a'i gwblhau i'w gyfwyno gyda'r cais cynllunio.  Bydd hyd a chymhlethodd y DAS yn amrywio, yn dibynnu ar natur a graddfa'r datblygiad ond ym mhob achos dylai gynnwys adran GYFFREDINOL a datganiad mewn perthynas â phob un o'r pum pennawd uchod. Yn gyffredinol fe ddylai'r wybodaeth yma ymdrin â'r canlynol:

---

**Cyffredinol**

- Gweledigaeth ar gyfer y datblygiad
- Gwybodaeth am y safe – lleoliad, defnydd ayb.
- Cymeriad – adeiladau a'r ardal gyfagos
- Cyfyngiadau/Cyfeoedd – coed, topograffeg, hygyrchedd ayb
- Cyfeiriad at Bolisïau/Canllawiau Cynllunio
- Manylion prosesau/trafodaethau cyn cyfwyno cais

---

**Hygyrchedd**

- " " "
- Sut mae'r datblygiad yn sicrhau mynediad hwylus i'r safe (h.y. o bwyntiau mynediad y brif safe) yn ogystal ag o fewn y safe (e.e. o lwybrau cerdded neu feysydd parcio) ar gyfer pob defnyddiwr posib?
- Sut bydd y datblygiad yn goresgyn unrhyw broblemau gyda threfniadau mynediad presennol ar gyfer y safe?
- Yn achos adeiladau rhestredig, eglurwch yr ystod llawn o ddewisiadau a ystyriwyd ar gyfer gwella mynediad i'r adeilad/safe a dangoswch pam fod y cynigion yn cael eu hystyried y rhai mwyaf priodol.

**Mae cyflwyno Datganiad Dylunio a Hygyrchedd (DAS) yn ofyniad cyfreithiol ac nid yw'r cais cynllunio yn ddilys oni bai ei fod wedi'i gyflwyno gyda DAS (gyda'r eithriadau a nodwyd uchod).**

**Bydd unrhyw gais annilys (neu un nad yw'n cynnwys gwybodaeth ddigonol mewn perthynas â'r das) yn cael ei ddychwelyd i'r ceisydd/asiant o fewn rhai dyddiau i'w dderbyn (gydag eglurhad o'r wybodaeth ychwanegol sydd ei angen).**

Rhoddir arweiniad mwy cyflawn ar ofynion DAS o fewn Polisi Cynllunio Cymru Llywodraeth